WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

www.wao.gov.uk

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol

## Mis Ebrill 2009 i Fis Mawrth 2010

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol | 3 |
| Sylwadaeth y Rheolwyr | 5 |
| Adroddiad ar Daliadau | 15 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 20 |
| Datganiad am Reolaeth Fewnol | 21 |
| Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwilydd | 26 |
| Datganiadau Ariannol a nodiadau | 28 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 32 |

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

## Cefndir statudol

Mae swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn benodiad gan y Goron a grëwyd yn wreiddiol yn 1999 ac a ailsefydlwyd o dan adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Tan 31 Mawrth 2005, prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol oedd archwilio'r cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig a chynnal archwiliadau gwerth am arian a oedd yn cwmpasu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac eithrio llywodraeth leol. O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ehangwyd swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o 1 Ebrill 2005 i gwmpasu swyddogaethau archwilio ac arolygu a oedd yn ymwneud ag iechyd a llywodraeth leol a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Ar yr un dyddiad, trosglwyddwyd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol i greu Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ogystal â'r aelodau o staff hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn llunio contractau â chwmnïau gwasanaethau proffesiynol yn y sector preifat i ddarparu gwasanaethau archwilio, gwasanaethau arolygu a gwasanaethau eraill.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gydweithio â Llywodraeth y Cynulliad, y Comisiwn Archwilio a'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd (a unodd, ar 1 Ebrill 2009, â'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol a Chomisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl i ffurfio'r Comisiwn Ansawdd Gofal) lle y bo'n briodol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ailsefydlodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 swydd yr Archwilydd Cyffredinol gyda'i swyddogaethau presennol a chreodd hefyd Gronfa Gyfunol Cymru a gyflwynodd swyddogaethau cysylltiedig i'r Archwilydd Cyffredinol o 1 Ebrill 2007.

Yn sgîl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a ddaeth i rym ar 10 Mehefin 2009, newidiwyd y gyfundrefn ar gyfer adolygu perfformiad gwasanaethau a gwelliannau yn y sector llywodraeth leol.

## Sail cyfrifon

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon hwn yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

## Penodi archwilwyr

Caiff cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol eu harchwilio gan KTS Owens Thomas Cyfyngedig, cwmni a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, ac nid oes un o'i aelodau yn gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cadeirydd y pwyllgor yw Peter Laing. Yr Athro David Hands, Rosamund Blomfield-Smith, Dr Michael P Brooker, Haydn Warman a Denver Lynn yw'r aelodau eraill.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith yr archwilwyr allanol ac am y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn y Datganiad am Reolaeth Fewnol.

## Cynllun pensiwn

Nodir manylion trefniadau pensiwn staff yr Archwilydd Cyffredinol yn yr Adroddiad ar Daliadau.

**Gillian Body**

Archwilydd Cyffredinol

# Sylwadaeth y Rheolwyr

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn deillio'n bennaf o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn gyffredinol, mae'r swyddogaethau yn cyfuno'r rhai a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ers 1999 ar gyfer archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff cysylltiedig â'r rhai a gyflawnwyd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru ar gyfer archwilio cyrff y GIG yng Nghymru ac archwilio, arolygu a rheoleiddio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, cyrff y GIG yng Nghymru a rhai cyrff eraill nad ydynt yn destun rheolaeth weinidogol fel Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n penodi ac yn rheoleiddio archwilwyr cyrff llywodraeth leol.

Yn ogystal, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau a dyletswyddau amrywiol yn ymwneud ag arolygu cyrff llywodraeth leol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ymhlith dyletswyddau statudol yr archwilydd allanol mae archwilio cyfrifon ac arolygu gwerth am arian cyrff cyhoeddus Cymru yn eu defnydd o adnoddau. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i lunio adroddiadau ar y gwaith hwn a chyflwyno adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## Adolygiad o weithgareddau yn ystod 2009-10

Cyflwynwyd ail strategaeth dair blynedd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mai 2009. Llywiwyd gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, a chwmnïau a gontractiwyd i'r Archwilydd Cyffredinol, yn ystod y flwyddyn gan y strategaeth sy'n nodi chwe thema y dylid rhoi sylw penodol iddynt:

- helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella'r ffordd y maent yn defnyddio adnoddau o fewn cyfyngiadau cynyddol yr economi a'r amgylchedd;
- hyrwyddo cymariaethau gwell, data perfformiad clir, ac adroddiadau hygyrch i'r rhai sy'n penderfynu a dinasyddion;
- hyrwyddo canlyniadau gwell i ddinasyddion drwy weithio ar draws ffiniau i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio, eu darparu a'u hadolygu;
- cefnogi'r broses o ddiwygio'r GIG drwy roi sicrwydd, heriau a diagnosis amserol o safon uchel;
- cefnogi'r broses o roi strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn uniongyrchol a thrwy eraill;
- helpu i sicrhau bod gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn arwain at wasanaethau a chydberthnasau gwell.

Wrth gyflawni'r strategaeth honno, a'i chenhadaeth o ysgogi gwelliant, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru gymysgedd o archwiliadau o gyfrifon, archwiliadau ac arolygiadau o berfformiad lleol a chyhoeddodd nifer o astudiaethau cenedlaethol. Yn gyffredinol, yn sgîl cyflwyno Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, cyfunwyd y gwaith archwilio ac arolygu

perfformiad lleol ar gyfer cyfrifon newydd cyrff llywodraeth leol penodol a wnaed yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â'r swyddogaethau statudol hyn, parhaodd Swyddfa Archwilio Cymru i ysgogi'r arfer o rannu gwersi a ddysgwyd ac arfer da a hynny'n benodol drwy ei Chyfnewidfa Arfer Da (http://www.wao.gov.uk/cymraeg/1488.asp). Bu'r ffaith bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio holl wasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru o gymorth mawr i Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi weithio ar bob mater yn ymwneud â chydweithredu a gwaith partneriaeth yng Nghymru, a thrwy hynny llwyddwyd i sicrhau gwasanaeth gwell i Gymru.

Mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn dangos bod staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael blwyddyn prysur ac wedi perfformio'n dda iawn mewn amgylchiadau anodd weithiau. Heb gefnogaeth y staff, ni fyddai Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno ei raglen waith anodd iawn. Hoffai swyddfa’r Archwilydd Cyffredinol fynegi ei werthfawrogiad i ymdrechion holl staff Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni'r gwaith hwn.

Comisiynodd y cyn-Archwilydd Cyffredinol Adolygiad Cymheiriad Rhyngwladol annibynnol o Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd yr adolygiad ar 8 Hydref 2009 a gwnaeth nifer o argymhellion. Er i'r strategaeth dair blynedd gael ei chyhoeddi cyn yr adolygiad, ymgorfforwyd y canfyddiadau cychwynnol ynddi.

Mae argymhellion yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol wedi cael eu derbyn ac yn y broses o gael eu rhoi ar waith. Arweiniodd hyn at ddatblygiad Rhaglen Newid. Mae'r Rhaglen yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen Newid sy’n cael ei gadeirio gan Bartner Rheoli gyda'r cyfrifoldeb o weithredu argymhellion yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol. Yn ogystal, mae’r Bwrdd hwn yn cyfathrebu ei weithredoedd i'r Pwyllgor Gwaith, y staff a Phwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Am ragor o fanylion, ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

## Uwch aelodau staff

Un o argymhellion yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol oedd y dylid mabwysiadu arddull rheoli mwy cyfarwyddiadol. Gweithredwyd yr argymhelliad hwn drwy greu Pwyllgor Gweithredol â chyfrifoldeb dirprwyol am redeg y sefydliad. Sefydlwyd y Pwyllgor Gweithredol ar 1 Rhagfyr 2009 gan ddisodli'r trefniadau blaenorol, gan gynnwys rôl y Prif Swyddog Gweithredu, y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Partneriaeth a oedd yn cynnwys yr holl uwch aelodau staff a oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo prosiectau.

## Y Partneriaid yn ystod 2009-10 oedd:

Anthony Snow (gadawodd ar 30 Medi 2009)
Anthony Barrett
Gillian Body
Paul Dimblebee
Simon Edge
Ann-Marie Harkin
John Herniman
Jane Holownia
Gill Lewis (gadawodd ar 31 Mawrth 2010)
Alan Morris
Ceri Stradling
Kevin Thomas
Mike Usher

Ar 1 Rhagfyr 2009, cymerodd Pwyllgor Gweithredol newydd, a oedd yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol fel cadeirydd a thri Phartner Rheoli, gyfrifoldeb am redeg Swyddfa Archwilio Cymru i gyd, gan gynnwys cyfeirio ffrydiau prosiect gweithredol. Y Partneriaid Rheoli yw:

Gillian Body (Partner Rheoli, Archwilio Perfformiad) tan 11 Chwefror 2010. Ar 12 Chwefror 2010 fe'i penodwyd yn Archwilydd Cyffredinol.

Anthony Barrett (Partner Rheoli, Archwilio Ariannol)

Kevin Thomas (Partner Rheoli, Cynllunio ac Adnoddau)

Ar 3 Chwefror 2010, datganodd Jeremy Colman ei fwriad i ymddiswyddo o'i swydd fel Archwilydd Cyffredinol ar unwaith. Gofynnodd y Cynulliad Cenedlaethol i'w Mawrhydi y Frenhines benodi Gillian Body yn Archwilydd Cyffredinol tra bod ymarfer recriwtio cyflawn yn mynd rhagddo i benodi Archwilydd Cyffredinol newydd parhaol.

## Y gwasanaethau a ddarperir

Mae gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yn cwmpasu 98 o brif gyrff a archwilir a 740 o gyrff eraill. Dadansoddir y cyrff hyn yn ôl categori isod:

| Sector | Categori'r corff | Nifer y cyfrifon |
|---|---|---|
| **Llywodraeth ganolog** | Llywodraeth y Cynulliad | 5 |
| | Cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad | 12 |
| | Cyrff cyhoeddus datganoledig annibynnol | 4 |
| | Cronfeydd pensiwn | 2 |
| | Arall | 4 |
| **Cyrff y GIG yng Nghymru** | Ymddiriedolaethau | 3 |
| | Byrddau Iechyd Lleol | 7 |
| **Cyrff llywodraeth leol** | Awdurdodau unedol | 22 |
| | Awdurdodau'r heddlu | 4 |
| | Awdurdodau tân | 3 |
| | Awdurdodau parciau cenedlaethol | 1[1] |
| | National park authorities | 3 |
| | Cynghorau tref a chymuned | 740 |
| | Cronfeydd pensiwn | 8 |
| | Arall | 20 |
| **Cyfanswm** | | **838** |

1 Roedd pedwar sefydliad yn 2009-10 ond gwnaethant uno i ffurfio un endid ym mis Ebrill 2010.

## Cymorth proffesiynol i Gynulliad Cenedlaethol a gwaith allanol arall

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi cyngor proffesiynol i gefnogi rôl graffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor Archwilio gynt) y Cynulliad Cenedlaethol. Seiliwyd sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor ar adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol. Darparodd yr Archwilydd Cyffredinol gymorth a chyngor i'r Pwyllgor wrth graffu ar y Weithrediaeth hefyd.

Mae'r ymwybyddiaeth eang a geir o waith yr Archwilydd Cyffredinol yn golygu ei fod yn derbyn ymholiadau a mynegiadau o bryder o ran rheoli ariannol, gwerth am arian a ffyrdd priodol o wneud busnes cyhoeddus. Daw gohebiaeth o'r fath o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, a'r cyhoedd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gohebiaeth o'r fath wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer gwaith prif ffrwd yr Archwilydd Cyffredinol ac wedi nodi pynciau sy'n peri pryder y tu hwnt i sianeli swyddogol.

O ran gohebiaeth, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl statudol benodol fel 'person rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 i gael datgeliadau sy'n ymwneud â gwneud busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, a thwyll a llygredd o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn diogelu cyflogeion sy'n gwneud datgeliad o ran camymddygiad yn y gweithle er lles y cyhoedd - a elwir yn 'chwythwyr chwiban' fel arfer. Fel gyda gohebiaeth arall, ymchwilir i ddatgeliadau o'r fath yn briodol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhwym wrth Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Ymdriniodd yr Archwilydd Cyffredinol â 57 o geisiadau (72 yn 2008-09) am wybodaeth yn ystod y flwyddyn.

## Gwaith grantiau

Gall cyrff talu grantiau ac asiantaethau eraill ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol (neu ei archwilwyr penodedig) ardystio ceisiadau am grantiau a ffurflenni ariannol eraill. Nod gwaith ardystio yw rhoi sicrwydd rhesymol y caiff ceisiadau a ffurflenni eu llenwi yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol y grant a ddyfarnwyd. Ar hyn o bryd, darperir y gwasanaeth hwn i oddeutu 40 o gynlluniau grant, sy'n gyfrifol am wariant grant gwerth tua £3 biliwn y flwyddyn.

## Risgiau ac ansicrwydd

Mae dwy brif risg ariannol y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored iddynt, sef:

- Colli incwm o bosibl yn sgîl newidiadau yn y sector iechyd a gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- Y modd yr ymdrinnir â TAW ar waith arolygu. Mae hon yn broblem ar waith y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 hefyd. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn Nodyn 26.

Bu newid sylweddol yn y sector iechyd ym mis Hydref 2009. Unwyd y rhan fwyaf o'r cyrff iechyd ar y pryd, gan gynnwys ymddiriedolaethau iechyd a byrddau iechyd lleol, i greu saith endid newydd. Yn y byrdymor, bydd cynnydd yn yr incwm ffioedd o ganlyniad i'r newidiadau, ond yn y tymor hwy mae'n debygol na fydd angen cymaint o waith archwilio ac, felly, bydd lleihad cyfatebol yn yr incwm ffioedd wrth i'r cyrff newydd ymgynefino â phatrwm sefydlog o weithredu.

Bydd gweithredu'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 10 Mehefin 2009, yn cael effaith sylweddol ar natur y gwaith archwilio perfformiad a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyrff llywodraeth leol y mae'r mesur yn berthnasol iddynt. Ar hyn o bryd, nid yw'n eglur pa effaith ariannol y caiff hyn ar incwm yr Archwilydd Cyffredinol, ond yn y byrdymor ni ddisgwylir unrhyw leihad yn lefel yr incwm.

Defnyddir gwaith cynllunio'r gweithlu i fodelu goblygiadau'r newidiadau hyn a newidiadau eraill o ran adnoddau. Lle bo angen caiff y gweithlu ei ad-drefnu i ateb yr heriau gweithredol ac ariannol sy'n codi.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn asesu effaith y newidiadau hyn a, lle bo hynny'n briodol, bydd yn lwfio ar eu cyfer yn nogfen amcangyfrif y gyllideb flynyddol a gyflwynir i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2010. Mae'r ddogfen honno yn amlinellu cais yr Archwilydd Cyffredinol am adnoddau a'r arian sydd ei angen a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Adolygiad ariannol

Mae'n ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol, gan gymharu un flwyddyn ag un arall, i sicrhau nad yw'r incwm yn llai na'r gwariant.

Cynhyrchwyd y gwarged o £9,000 (0.04 y cant o incwm gweithredu) ar gyfer y flwyddyn o incwm gweithredu o £25.7 miliwn, sy'n cynnwys ffioedd, grantiau ac adnoddau a gymeradwywyd.
Gellir dadansoddi'r incwm fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Llywodraeth ganolog | £6.8 miliwn |
| Llywodraeth Leol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, tân ac achub, a thai | £13.0 miliwn |
| Iechyd | £5.9 miliwn |

Mae costau staff yn cyfateb i 69.1 y cant o'r costau gweithredu. Er mwyn cynorthwyo'r staff a sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau technegol a datblygu angenrheidiol, gwariwyd £206,000 (2008-09; £159,000) ar hyfforddi staff yn ystod y flwyddyn. Roedd yr amser a dreuliwyd ar hyfforddiant o'r fath, ar sail cyfraddau tâl safonol, yn cyfateb i £1.2 miliwn (2008-09; £1.3 miliwn)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, cofnodir yn Nodyn 10 bod swm yr adnoddau cymeradwy net wedi'i gysoni â'r gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn. Mae'r nodyn yn dangos i'r Archwilydd Cyffredinol ddefnyddio'r holl adnoddau net cymeradwy a bod angen y dyraniad llawn o arian parod arno ar gyfer y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 10.

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Yn ystod 2009-10, parhaodd Grant Thornton UK LLP, KPMG Europe LLP a PricewaterhouseCoopers LLP â'u gwaith o dan gontractau fframwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig. Rhyngddynt, cyflawnodd y tri chwmni hyn tua 29 y cant o'r prif ymgymeriadau archwilio ym meysydd llywodraeth leol, iechyd a llywodraeth ganolog, am £3.9 miliwn yn ystod y flwyddyn. Caiff y broses o archwilio cynghorau cymuned ei chyflawni gan UHY Hacker Young, BDO Stoy Hayward neu Mazars.

Roedd costau'r adeiladau yn ystod y flwyddyn yn £0.8 miliwn. Er y dechreuwyd defnyddio'r brif swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2008, roedd un brydles yn ddilys o hyd ar y pencadlys gwreiddiol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.

## Gwybodaeth am faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd ar drywydd ac yn hyrwyddo stiwardiaeth amgylcheddol dda drwy weithredu arfer gorau amgylcheddol a lleihau'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau. Credwn fod arferion amgylcheddol cadarn yn ategu mesurau eraill i gynyddu effeithlonrwydd ac yn cefnogi'r amcan ehangach i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ein gwaith a'n gweithgareddau. Ymhlith yr amcanion a'r cyflawniadau penodol mae:

- Lleihau milltiroedd busnes. Gwnaed mwy o ddefnydd o fideogynadledda a chynhaliwyd 473 o sesiynau yn 2009-10 (cynnydd o 364 y cant ers 2007-08). Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae un prosiect ar fin dod i ben i uwchraddio'r offer fideogynadledda sy'n gydnaws â'r Platfform Rhyngrwyd. Dylai hyn leihau'r angen i staff a rhanddeiliaid allanol deithio, a dylai leihau costau ffôn yn y tymor hwy. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal sesiynau cynadledda pedair ffordd llwyddiannus ledled y DU sy'n lleihau milltiroedd busnes ac yn arbed amser teithio. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys gosod unedau fideogynadledda ychwanegol yn y prif swyddfeydd a chyflwyno cynllun peilot ar gyfer sesiynau gwe-gamera un i un.
- Adolygu ein trefniadau rheoli fflyd a thrafnidiaeth. Ymhlith y mentrau mae lleihau allyriadau carbon deuocsid ($CO_2$) cerbydau ein fflyd bob blwyddyn a byddwn hefyd yn ystyried y math o gerbydau a ddefnyddir. Bu gostyngiad o 3.3 y cant (35,268 o filltiroedd busnes) o gymharu â 2007-08, sydd dros hanner ffordd at y gostyngiad o 5 y cant a dargedir.
- Monitro perfformiad ynni. Yn 2008-09, datblygodd Swyddfa Archwilio Cymru ffigurau sylfaenol ar gyfer ei pherfformiad o ran ynni. Y targed wedi hynny oedd lleihau'r defnydd o ynni nes ei fod 2 y cant yn is na'r llinell sylfaenol. Yn 2009-10 bu cynnydd o 3 y cant yn y defnydd o ynni, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'r gaeaf oer iawn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi mesurau effeithlonrwydd tanwydd ychwanegol ar waith a'i nod yw cyflawni'r lleihad a dargedir dros y flwyddyn sydd i ddod.
- Prosiect i ddatblygu serfwyr TGCh rhithwir, sydd ar waith ar hyn o bryd, er mwyn lleihau ein defnydd o ynni. Byddai'r lleihad arfaethedig yn y pŵer uniongyrchol a ddefnyddir gan galedwedd y serfwyr o 13.3 kW i 2.47 kW yn lleihau allyriadau $CO_2$ 50,900 kg y flwyddyn.
- Adroddiadau electronig. Ym mis Gorffennaf 2008, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiadau electronig a phennodd amcan i argraffu llai o adroddiadau y cyhoedd. O gymharu â 2007-08 bu lleihad o 2,800 neu 40 y cant yn nifer yr adroddiadau a argreffir. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi cynyddu nifer yr adroddiadau a luniwyd bob blwyddyn ond wedi argraffu llai o gopïau papur.
- Defnyddio llai o bapur. Ar gyfer 2008-09 pennodd Swyddfa Archwilio Cymru darged i leihau ei defnydd o bapur 5 y cant. Dim ond gostyngiad o 1 y cant a gafwyd yn 2008-09, ac felly ni chyflawnwyd y targed ond drwy roi mesurau ychwanegol ar waith yn 2009-10 llwyddwyd i ragori 15 y cant ar y targed.
- Lleihau gwastraff. Lleihaodd Swyddfa Archwilio Cymru nifer yr argraffwyr a nwyddau traul drwy ddefnyddio dyfeisiau amlswyddogaeth. Hefyd, mabwysiadodd Swyddfa Archwilio Cymru ddull 'ailddefnyddio yn gyntaf', hynny yw, defnyddio eitemau sydd ar gael eisoes at ddiben arall cyn prynu cynnyrch newydd, a mabwysiadodd ddull o brynu deunydd papur yn union cyn i'r nwyddau presennol ddod i ben ac felly, mae wedi defnyddio mwy o gynnyrch wedi'i ailgylchu.
- Gwneud cais am ailachrediad ar Lefel 3, y Ddraig Werdd, sef safon bwysig sy'n cydnabod dulliau rheoli amgylcheddol effeithiol, mewn pedair o'n prif swyddfeydd. Mae Lefel 3 yn cynnwys monitro $CO_2$, rheoli gwastraff, cydymffurfio â deddfwriaeth, a gwneud gwaith monitro amgylcheddol.

Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi mentrau elusennol amrywiol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol. Yn 2009-10 aeth staff, fel rhan o ymarferion adeiladu tîm, i Hensol ym Mro Morgannwg i glirio tir prysg er mwyn denu glöyn byw brith y gors. Aeth staff hefyd i un o Warchodfeydd yr RSPB i helpu i ddatblygu deunydd cyhoeddusrwydd, clirio danadl poethion a gwylio adar.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau bod gan ei chyflenwyr gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac arferion cynaliadwyedd cadarn. Yn ogystal, gwnaed mwy o ddefnydd o ddulliau prynu ar-lein a Chardiau Caffael y Llywodraeth fel rhan o'n prosesau caffael.

Caiff materion cymdeithasol a chymunedol eu trin fel rhan o waith yr Archwilydd Cyffredinol ac fe'u hamlinellir yn y strategaeth fel y nodir ar dudalen 5 Sylwadaeth y Rheolwyr.

## Pobl

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflogi 260 o aelodau staff (cyfwerth ag amser llawn) yn uniongyrchol am gost o £17.7 miliwn.

Mae ansawdd, amrywiaeth ac ymgysylltiad staff yn hollbwysig i lwyddiant Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r prif fentrau a nodwyd yn strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu staff er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr amrywiaeth a'r lefel o sgiliau sydd eu hangen.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i'r canlynol:

- datblygu staff i roi'r sgiliau a'r hygrededd iddynt gyflawni rhaglenni gwaith a nodau hirdymor y sefydliad;
- sicrhau bod niferoedd staff a sgiliau yn cyfateb i'r llwyth gwaith;
- datblygu a chreu'r strwythur i alluogi staff i ehangu eu profiad a datblygu eu gyrfaoedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol am hyrwyddo amrywiaeth, cyfle cyfartal a hawliau dynol fel cyflogwr a thrwy ei swyddogaethau archwilio ac arolygu. Yng nghyd-destun cyflogaeth, golyga hyn fod yr Archwilydd Cyffredinol nid yn unig yn ceisio cyflawni ei rwymedigaethau statudol perthnasol, ond hefyd yn annog arfer da fel bod cyflogeion presennol a darpar gyflogeion yn cael eu trin yn gadarnhaol ac yn gyson waeth beth fo'u rhyw, eu statws priodasol, eu hethnigrwydd, eu hoedran, eu tueddfryd rhywiol, eu hanabledd, eu crefydd neu waeth p'un a ydynt wedi newid eu rhyw ai peidio. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ceisio cynnwys cyflogeion ac ymgynghori â hwy ynghylch amrywiaeth o faterion gan gynnwys telerau ac amodau drwy'r undebau llafur.

Mae datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys Rhaglen Datblygu Sgiliau Arwain i ddatblygu staff a rheolwyr, a chynllun rheoli perfformiad newydd. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr eisoes wedi cymryd rhan mewn proses adborth 360 gradd lle caiff rheolwyr eu harfarnu gan staff. Efallai y caiff y broses hon ei defnyddio yn ehangach yn y dyfodol ond bydd angen adolygu'r sefyllfa ymhellach.

## Absenoldeb oherwydd salwch

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd camau rhagweithiol i leihau achosion o absenoldeb oherwydd salwch. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith i gofnodi a rheoli absenoldeb;
- trefniadau i hyrwyddo ffordd iach o fyw.

Collwyd 8.1 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd (2008-09; 5.2 diwrnod). Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn gamarweiniol o ganlyniad i salwch hirdymor parhaus ymhlith nifer fach o staff. Er mwyn llunio cymhariaeth fwy ystyrlon, collwyd 3.9 diwrnod (2008-09; 3.2 diwrnod) ar gyfartaledd o ganlyniad i salwch byrdymor. Er mwyn lleihau'r lefel hon a nifer yr achosion o absenoldeb oherwydd salwch, anogir y staff i fyw'n iach. Er enghraifft, nod sawl cynllun fel aberthu cyflog i brynu beiciau a darparu ffrwythau ffres fel byrbryd iach amgen yw helpu staff i fod yn iachach.

Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnig archwiliadau meddygol am ddim i staff, a bydd amlder yr archwiliadau hyn yn dibynnu ar oedran y staff. Mae'r gwasanaeth hwn yn gwbl gyfrinachol ond mae'n annog staff i nodi a, gyda lwc, weithredu ar unrhyw broblemau a all godi yn gynt nag y byddent fel arall. Yn y tymor hwy, y gobaith yw y bydd y gwasanaeth hwn yn helpu i leihau absenoldeb oherwydd salwch.

| 2009-10 | | | 2008-09 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai ar gyfartaledd | Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | % a gollwyd i salwch hirdymor | Nifer y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai ar gyfartaledd | Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | % a gollwyd i salwch hirdymor |
| 8.1 | 2,238 | 50.9%[1] | 5.2 | 1,539 | 37.2%[1] |

1 Salwch hirdymor yw cyfnodau o 21 o ddiwrnodau neu fwy.

| Dadansoddiad o'r rhesymau allweddol dros absenoldeb | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2009-10 | | | | | 2008-09 | | | | |
| | Cyfran a gollwyd oherwydd | | | | | Cyfran a gollwyd oherwydd | | | |
| Total days lost | Stress | Musculoskeletal | Respiratory system | Other | Total days lost | Stress | Musculoskeletal | Respiratory system | Other |
| 2,238 | 9.3% | 11.2% | 16.1% | 63.4%[1] | 1,539 | 14.7% | 15.4% | 20.3% | 49.6%[1] |

1 Mae hyn yn cynnwys cyflyrau sy'n effeithio ar y galon a'r llygaid ond mae hefyd yn cynnwys amser nas priodolwyd yn benodol i unrhyw gategori penodol o salwch.

| Diwrnodau absenoldeb oherwydd salwch a nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2009-10 | | | | | 2008-09 | | | | |
| Total number of staff on payroll | Total number of staff years | Total days lost | Average working days lost per staff year | Average working days lost per employee | Total number of staff on payroll | Total number of staff years | Total days lost | Average working days lost per staff year | Average working days lost per employee |
| 276[1] | 242 | 2,238 | 9.2 | 8.1 | 297[1] | 253 | 1,539 | 6.1 | 5.2 |

1 Dyma'r nifer ar y gyflogres ar 31 Mawrth sy'n cyfateb i 260 o staff cyfwerth ag amser llawn (2008-09; 270).

## Colli data personol

Mae mwy o ymwybyddiaeth o reoli a diogelu gwybodaeth o fewn cyrff y llywodraeth ac mae gan Swyddfa Archwilio Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos posibl o golli data. Caiff y rheolaethau a'r arferion gweithredol eu gwella'n barhaus ac fel cydnabyddiaeth o hyn, rydym wedi lansio sawl menter i reoli risgiau o ran gwybodaeth fel y nodir yn y Datganiad am Reolaeth Fewnol ar dudalen 21, sydd hefyd yn disgrifio sut rydym wedi gwella diogelwch gwybodaeth.

Yn ystod y cyfnod ariannol y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef, ni chafodd y Comisiynydd Gwybodaeth wybod am unrhyw achosion o golli data personol. Hefyd ni chafodd y Comisiynydd Gwybodaeth wybod am unrhyw achosion yn ymwneud â data personol a ddiogelwyd a gofnodwyd yn ganolog.

## Datblygiadau'r dyfodol

Cyhoeddwyd cynllun strategol newydd ar gyfer cyfnod 2009-2012 ym mis Mai 2009, fel y nodwyd yn Sylwadaeth y Rheolwyr ar dudalen 5.

Prynwyd system feddalwedd gyfrifiadurol newydd ar gyfer cyfriflyfr cyffredinol i'w rhoi ar waith ym mis Mai 2010. Bydd y system hon, ar y cyd â'r systemau a roddwyd ar waith dros y ddwy i dair blynedd diwethaf, yn darparu gwybodaeth reoli lawer gwell ac yn creu arbedion effeithlonrwydd o gymharu â'u rhagflaenwyr.

Caiff system rheoli dogfennau ei rhoi ar waith i wella perfformiad ymhellach o ran talu anfonebau cyflenwyr. Mantais ychwanegol sydd ynghlwm wrth y system hon yw y gellir sicrhau y caiff unrhyw anfonebau y mae amheuaeth yn eu cylch eu datrys yn gynharach, am ei bod yn bosibl gweld yr holl wybodaeth am anfonebau ar unwaith. Caiff y data ei storio yn electronig, felly dylai hyn wneud y broses yn fwy diogel a dylai hyn yn ei dro arwain at fanteision eraill, fel gwelliannau amgylcheddol. Er enghraifft, ni fydd angen i anfonebau gael eu dosbarthu ledled Cymru i'w hawdurdodi oherwydd bydd modd gwneud hyn ar-lein.

Hefyd, caiff modiwl llif arian parod ei roi ar waith a fydd yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ragweld gofynion o ran arian parod yn fwy cywir ac ennill cymaint o log â phosibl. Caiff y modiwl ei integreiddio i raddau helaeth â'r system cyfriflyfr cyffredinol newydd.

Mae'r brif system ar gyfer cofnodi amser staff yn cael ei huwchraddio i'w rhoi ar waith ym mis Mai 2010. Bydd hyn yn gwella swyddogaethau cefn swyddfa drwy symleiddio prosesau bilio a chynllunio adnoddau a bydd hyn, felly, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Yn ogystal ag ailsefydlu swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru gyda'i swyddogaethau presennol, creodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 Gronfa Gyfunol Cymru a gyflwynodd swyddogaethau newydd cysylltiedig ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol o 1 Ebrill 2007. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru. Mewn ymateb i geisiadau gan Weinidogion Cymru, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau bod taliadau arfaethedig o Gronfa Gyfunol Cymru yn cydymffurfio â chynigion cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol neu'n cydymffurfio fel arall â deddfwriaeth. Ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol awdurdodi'r taliad, bydd y Tâl-feistr Cyffredinol yn talu arian o Gronfa Gyfunol Cymru i'r corff cyhoeddus priodol. Yn ystod y flwyddyn, cadarnhaodd a chymeradwyodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfanswm o £13.1 biliwn o daliadau.

## Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen y mae angen eu datgelu yn y Datganiadau Ariannol hyn.

## Polisi talu

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu gweithredu yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer Talu Gwell a thalu pob anfoneb ddiamheuol gan ei chyflenwyr o fewn 30 diwrnod. Yn ystod y cyfnod o 12 mis, talwyd 96.3 y cant o'r anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod (2008-09; 95.8 y cant). Hefyd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn anelu at dalu anfonebau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2008 yn nodi y dylai anfonebau i fusnesau bach a chanolig gael eu talu o fewn 10 diwrnod. Creodd y canllawiau penodol hyn anawsterau o ran gwahaniaethu rhwng cyflenwyr felly estynnodd yr Archwilydd Cyffredinol y canllawiau i gynnwys pob anfoneb, boed yn anfoneb gan fusnes mawr neu fach. Yn ystod y cyfnod o 12 mis, talwyd 73.6 y cant o'r anfonebau diamheuol o fewn 10 diwrnod.

## Taliadau

Datgelir manylion yn yr Adroddiad ar Daliadau isod.

## Archwilydd allanol

Archwiliwyd y Datganiadau Ariannol hyn gan KTS Owens Thomas Cyfyngedig, sef archwilydd allanol annibynnol yr Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Atodlen 8 i adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nodir y ffi archwilio yn Nodyn 7.

# Adroddiad ar Daliadau

Yn ystod 2009-10, codwyd costau cyflog yr Archwilydd Cyffredinol yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 8 i adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010, £18,174 oedd swm y taliadau a dalwyd i'r Archwilydd Cyffredinol a £4,416 oedd swm costau pensiwn y cyflogwr. Cafodd y cyn-Archwilydd Cyffredinol, Jeremy Colman, £146,532 mewn taliadau (2008-09; £170,000) a £25,654 (2008-09; £29,988) mewn costau pensiwn y cyflogwr.

## Uwch reolwyr

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Hyd at 30 Tachwedd 2009, Pwyllgor Rheoli, ar y cyd â'r Prif Swyddog Gweithredu, oedd yn ymdrin â'r gwaith o reoli Swyddfa Archwilio Cymru o ddydd i ddydd.

Roedd y Pwyllgor Rheoli, o dan gadeiryddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnwys pump uwch aelod o staff ychwanegol fel a ganlyn:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i'r swydd | Dyddiad gorffen | Contract |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Anthony Snow (Prif Swyddog Gweithredu) | 01/10/1990 | 08/02/2006 | 30/09/2009 | Parhaol |
| Ceri Stradling | 01/11/1984 | 08/02/2006 | | Parhaol |
| Gillian Body | 02/09/1981 | 08/02/2006 | | Parhaol |
| Simon Edge | 01/11/2005 | 08/02/2006 | | Parhaol |
| Jane Holownia | 24/10/1994 | 08/02/2006 | | Parhaol |

Ar 1 Rhagfyr 2009, yn dilyn yr Adolygiad Cymheiriaid Rhyngwladol, disodlwyd y Pwyllgor Rheoli gan Bwyllgor Gweithredol. Yr Archwilydd Cyffredinol yw cadeirydd y Pwyllgor hwn ac mae'n cynnwys tri aelod ychwanegol o staff, sef:

| | Dyddiad eu penodi i Swyddfa Archwilio Cymru neu sefydliad rhagflaenol | Dyddiad eu penodi i'r swydd | Dyddiad gorffen | Contract |
|---|---|---|---|---|
| Gillian Body[1] | 02/09/1981 | 01/12/2009 | 11/02/2010 | Parhaol |
| Anthony Barrett | 24/01/2001 | 01/12/2009 | | Parhaol |
| Kevin Thomas[2] | 26/10/1992 | 01/12/2009 | | Parhaol |

1 Penodwyd Gillian Body yn Archwilydd Cyffredinol dros dro o 12 Chwefror 2010.

2 Rôl dros dro yw hon i gyflawni'r rhaglen newid.

Adolygir perfformiad pob un o aelodau'r Pwyllgor Gweithredol ddwywaith y flwyddyn a chynhelir adolygiad o gyflogau bob blwyddyn. Y cyfnod rhybudd i bob aelod yw 12 wythnos. Pe byddai contract aelod yn cael ei derfynu yn gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai'n cael iawndal.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sefydlu Pwyllgor Taliadau yn hwyrach yn y flwyddyn ariannol 2010-11. Bydd y Pwyllgor Taliadau yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau am faterion sy'n ymwneud â thalu ei staff, gan gynnwys uwch staff. Bydd y Pwyllgor Taliadau yn un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Bydd y Pwyllgor Taliadau yn rhoi cyngor, yn monitro, ac yn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o ran talu'r staff yn briodol. Bydd y Pwyllgor Taliadau yn cyflwyno adroddiad blynyddol ac unrhyw adroddiadau sydd eu hangen i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Bydd y Pwyllgor Taliadau yn cynnal adolygiad ffurfiol o ansawdd trefniadau rheoli taliadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y cânt eu gweithredu, a hynny o ran materion yn ymwneud â gweinyddu priodol, risg a rheoli a gwneud busnes yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Hefyd, bydd y Pwyllgor Taliadau yn rhoi cyngor ar gais neu, fel y gwêl yn briodol, yn rhoi cyngor allanol na fyddai'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu ei gael fel arall.

## Manylion tâl uwch reolwyr (caiff y wybodaeth hon ei harchwilio)

Mae'r tabl canlynol yn nodi tâl uwch reolwyr ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2009 a 30 Tachwedd 2009 ar gyfer y rhai oedd yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli.

| | Cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2009 | | | Cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2009 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn da | Cyfanswm | Cyfraniad pensiwn | Cyfanswm (heb gynnwys cyfraniad pensiwn) |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 |
| Anthony Snow[1,2] | 65-70 | 0 | 65-70 | 15.0-17.5 | 130-135 |
| Ceri Stradling | 65-70 | 3,400 | 70-75 | 15.0-17.5 | 100-105 |
| Gillian Body[1] | 70-75 | 200 | 75-80 | 17.5-20.0 | 110-115 |
| Simon Edge | 65-70 | 3,800 | 70-75 | 15.0-17.5 | 100-105 |
| Jane Holownia[3] | 65-70 | 0 | 65-70 | 12.5-15.0 | 95-100 |

1 Cafodd Anthony Snow gyfraniadau cyflogwr o £400 (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf), yn seiliedig ar gyflog a gafwyd uwchlaw'r trothwy enillion at ddibenion cyfrifo pensiwn. Talwyd y swm hwn i mewn i'w gyflog.

2 Gadawodd Anthony Snow gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol ar 30 Medi 2009. Fel iawndal am derfynu ei gontract, cafodd £107,580 ac mae rhwymedigaeth o hyd i gyfrannu at ei gynllun pensiwn hyd nes iddo gyrraedd yr oedran ymddeol cyffredin.

3 Gweithiodd Jane Holownia yn rhan amser am gyfnod yn 2008-09 ac roedd ei chyflog, a oedd yn cynnwys lwfans teithio, ar sail pro rata yn seiliedig ar yr oriau a weithiodd.

Mae'r tabl canlynol yn nodi tâl uwch reolwyr ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2009 a 31 Mawrth 2010 ar gyfer y rhai a benodwyd i'r Pwyllgor Gweithredol.

| | Cyfnod hyd at 31 Mawrth 2010 | | | Cyfnod hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflog | Buddiannau mewn da | Cyfanswm | Cyfraniad pensiwn | Cyfanswm (heb gynnwys cyfraniad pensiwn) |
| | Bandiau o £5,000 | I'r £100 agosaf | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 |
| Gillian Body[1] | 20-25 | 100 | 20-25 | 5.0-7.5 | 110-115 |
| Anthony Barrett | 35-40 | 1,700 | 35-40 | 7.5-10.0 | |
| Kevin Thomas | 30-35 | 2,700 | 35-40 | 7.5-10.0 | |

1 Gadawodd Gillian Body ar 11 Chwefror 2010 i ddod yn Archwilydd Cyffredinol. O 12 Chwefror 2010, telir ei chyflog yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Manylion am hawl pensiwn uwch reolwyr (caiff y wybodaeth hon ei harchwilio)

Mae manylion y Pwyllgor Rheoli hyd at 20 Tachwedd 2009, ac eithrio Gillian Body a gaiff ei chynnwys fel rhan o'r Pwyllgor Gweithredol, fel a ganlyn:

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd a chyfandaliad ar 31 Mawrth 2010 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd a chyfandaliad ar 31 Mawrth 2009 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2010 | Ailddatganiad o'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2009 | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Anthony Snow | 2.5-5.0 | 60-65 | 55-60 | 131 | 994 | | 863 |
| Ceri Stradling | 0-2.5 | 40-45 | 40-45 | 100 | 794 | | 694 |
| Simon Edge | 0-2.5 | 45-50 | 45-50 | 69 | 734 | | 665 |
| Jane Holownia[1] | 0-2.5 | 20-25 | 20-25 | 72 | 443 | 100 | 271 |

1 Cafodd y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2009 ei ailddatgan yn erbyn Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Fel rhan o'r broses hon, ystyriwyd y newid yn y tybiaethau a gynhwyswyd yn y cyfrifiadau oedd yn sail i ddemograffeg y gronfa bensiwn ar y pryd.

Mae manylion y Pwyllgor Gweithredol o 1 Rhagfyr 2009 fel a ganlyn:

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd a chyfandaliad ar 31 Mawrth 2010 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd a chyfandaliad ar 31 Mawrth 2009 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2010 | Ailddatganiad o'r gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2009 | Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gillian Body | 5.0-7.5 | 160-165 | 150-155 | 79 | 731 | | 652 |
| Anthony Barrett[1] | 0-2.5 | 20-25 | | 14 | 279 | | 265 |
| Kevin Thomas | 0-2.5 | 25-30 | | 18 | 319 | | 301 |

1 Mae hwn yn cynnwys cyfraniad personol o £4,366 i brynu blynyddoedd ychwanegol.

## Mae manylion taliadau Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg fel a ganlyn:

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Peter Laing[1] – Cadeirydd | 12,521 | 7,250 |
| Yr Athro David Hands | 5,000 | 5,000 |
| Rosamund Blomfield-Smith | 5,000 | 5,000 |
| Haydn Warman[2] | 2,069 | |
| Dr Michael P Brooker[2] | 2,069 | |
| Denver Lynn[2,3] | DIM | |

1 Mae hwn yn cynnwys taliad o £5,271 am waith ychwanegol a gomisiynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

2 Penodwyd Haydn Warman, Dr Michael P Brooker a Denver Lynn ar 2 Tachwedd 2009.

3 Denver Lynn yw Dirprwy Brif Archwilydd Llywodraeth Leol Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Ni chafodd unrhyw dâl gan Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith hwn.

Mae gan bob aelod gontract o dair blynedd y gellir ei ymestyn hyd at dair blynedd arall os yw'r ddwy ochr yn cytuno i hynny, ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae contractau Peter Laing, yr Athro David Hands a Rosamund Blomfield-Smith wedi cael eu hymestyn dair blynedd hyd at 2012.

Ni chaiff unrhyw aelodau gyflog sy'n seiliedig ar berfformiad, ac nid ydynt ychwaith yn aelodau o'r cynllun pensiwn. Pe byddai contract aelod yn cael ei derfynu yn gynnar, ac eithrio am achos o gamymddwyn, byddai'n cael iawndal.

## Trefniadau pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ac felly ni all yr Archwilydd Cyffredinol nodi cyfran yr asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol sy'n ymwneud â staff Swyddfa Archwilio Cymru. Cynhaliwyd prisiad diweddaraf llawn yr actiwari ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Roedd cyfraniadau arferol y cyflogwr o £2,317,000 (2008-09; £2,423,000) yn daladwy i PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 16.7 y cant i 24.3 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd y cyfraniadau hyn yn parhau i fod yr un fath ar gyfer y pedair cyfradd yn yr ystod 16.7 y cant i 24.3 y cant ond bydd y bandiau cyflog yn cynyddu rhywfaint yn 2010-11. Cynhelir adolygiad o gyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer, ond penderfynwyd cynnal yr adolygiad nesaf yn gynnar o fewn tair blynedd a rhoddwyd cychwyn arno ar 31 Mawrth 2010, ar ôl i Actiwari'r Llywodraeth brisio'r cynllun. Bydd canlyniadau’r adolygiad hyn ar gael yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddiannau wrth iddynt gael eu cronni, nid pan eir i'r costau yn union, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

..........................................................................

**Gillian Body**
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad: 18 Mehefin 2010

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol â chyfarwyddyd y Trysorlys, paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Archwilydd Cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi eu dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyro perthnasol oddi wrthynt yn y Datganiadau Ariannol;
- paratoi'r Datganiadau Ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Nodir cyfrifoldebau perthnasol yr Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol drosto, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Managing Public Money.

# Datganiad am Reolaeth Fewnol

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r dasg o gyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, tra'n diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd i mi yn Managing Public Money.

Fel Archwilydd Cyffredinol, rwy'n annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (ac i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin) am drefnu, rheoli a staffio Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac am ei gweithdrefnau o ran materion ariannol a materion eraill. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn archwilio fy amcangyfrif blynyddol o incwm a gwariant.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risgiau i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt y gall ei roi o ran effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni fy mholisïau, fy nodau a'm hamcanion, gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith pe caent eu gwireddu, a rheoli'r risgiau hynny yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i datblygu'n gynyddol yn ystod y flwyddyn ariannol 2009-10, ac mae'n unol ag arweiniad y Trysorlys.

## Y gallu i ymdrin â risg

Rwyf wedi sefydlu trefniadau rheolaeth fewnol i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu nodi, asesu a rheoli risgiau yn effeithiol.

**a Y Pwyllgor Gweithredol**

Mae'r Pwyllgor hwn, yr wyf yn gadeirydd arno, yn gyfrifol am reoli Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio trefniadau rheoli risg yn y sefydliad.

Pennir y diwylliant rheoli risg o fewn y sefydliad ar lefel strategol. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r holl risgiau corfforaethol a digonolrwydd y mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn yn chwarterol. Mae hefyd yn ystyried risg fel rhan annatod o'i brosesau penderfynu ac mae'n bodloni ei hun y caiff y risgiau corfforaethol a gweithredol eu rheoli gan berchenogion risg penodedig, a bod y trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol.

Trafodir pob mater sy'n codi mewn adroddiadau Archwilio Mewnol gan y Pwyllgor Rheoli a chytunir ar unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio ohonynt cyn eu gweithredu.

**b Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn cwrdd o leiaf bedair gwaith o fewn cyfnod o ddeuddeg mis arferol. Sefydlwyd y pwyllgor ym mis Tachwedd 2005 a chyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a adolygir. Dyma grynodeb o'i gyfrifoldebau:

- adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft a chynghori ar unrhyw ddiwygiadau neu welliannau cyn iddynt gael eu cyflwyno i mi eu cymeradwyo'n derfynol a'u harwyddo;
- adolygu a chraffu ar y canlynol:
  - polisïau, arferion a phrosesau ariannol a chyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru;
  - y systemau rheolaeth fewnol gan gynnwys adolygu'r cynlluniau gwaith Archwilio Mewnol a chynghori arnynt, adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol a digonolrwydd ymatebion gan reolwyr;
  - adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n crynhoi'r gwaith a wnaed yn y cyfnod, gan gynnwys adolygiad o'r gwaith parhaus i weithredu argymhellion archwilio;
  - dulliau asesu a rheoli risgiau'r Pwyllgor Gweithredol gan gynnwys adolygiad ffurfiol o'r risgiau corfforaethol a nodwyd yn chwarterol;
  - canlyniadau'r archwiliad allanol gan KTS Owens Thomas Cyfyngedig gan gynnwys ei Lythyr Rheoli a'r ymateb gan reolwyr.
- o dan amgylchiadau eithriadol, gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, ynghyd â Phartner Cydymffurfiaeth Swyddfa Archwilio Cymru, gyflwyno adroddiadau ar fy nghamau gweithredu a'm hymddygiad i Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ceisio mynd i holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

**c** **Archwiliad Mewnol**

Penodwyd Partner Cydymffurfiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn Bennaeth Archwilio Mewnol Mae'n atebol i mi, ac i'r Pwyllgor Gweithredol, ac yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg eu hadolygu yn unol â safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Ymhlith yr adroddiadau hynny mae barn annibynnol yr archwilydd mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad ynghyd â'r argymhellion ar gyfer gwella. Anogaf hefyd gyswllt rhwng y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r gwasanaeth Archwilio Allanol i sicrhau y cynhelir archwiliadau effeithlon a chost effeithiol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'u priod rolau a gofynion. O dan amgylchiadau eithriadol, gall y Partner Cydymffurfiaeth, ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, gyflwyno adroddiadau ar fy nghamau gweithredu a'm hymddygiad i Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

**ch** **Archwiliad Allanol**

Gwahoddir yr archwilydd allanol, KTS Owens Thomas Cyfyngedig, i fod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac mae modd iddo gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor yn uniongyrchol.

## Y fframwaith risg a rheolaeth

Rwyf yn arddel y saith egwyddor ymddygiad sy'n ategu bywyd cyhoeddus fel y'u nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Anhunanoldeb, Cywirdeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth).

Y prif nodweddion a'r rheolaethau lefel uchel allweddol sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn yw:

**a** Strwythur sefydliadol sy'n ategu llinellau clir o gyfathrebu ac atebolrwydd.

**b** Gweithredu cynllun strategol tair blynedd y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr ac a fu'n destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Fel y nodwyd yn Sylwadaeth y Rheolwyr ar dudalen 5, cyhoeddwyd cynllun strategol tair blynedd newydd ym mis Mai 2009.

**c** Prosesau clir fel bod y risgiau a nodwyd yn rhan o strwythur cyffredinol.

Cynlluniwyd prosesau rheoli risg y sefydliad i wneud y canlynol:

**a** Sefydlu fframwaith polisi a gymeradwyir gan y Pwyllgor Gweithredol, lle y caiff risgiau strategol eu nodi, eu rheoli a'u hadolygu'n barhaus.

**b** Ymsefydlu'r gwaith o reoli risgiau a chydymffurfio drwy ei wneud yn rhan o'r prosesau rheoli o ddydd i ddydd. Er mai'r Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am y risgiau ar y cyd, dyrennir pob risg gorfforaethol i Bartner neu Bennaeth Gwasanaeth priodol. Mae hyn yn sicrhau bod rheoli risg yn rhan hanfodol o'r holl drefniadau rheoli gweithredol. Yn ogystal, caiff pob risg ei rheoli gan reolwr a enwir, sy'n adolygu'r risg honno ac yn cyflwyno adroddiad arni.

**c** Mabwysiadu dull cyson o weithredu drwy'r sefydliad. Rwyf wedi gwneud hyn drwy benodi Partner, sy'n adrodd i mi a'r Pwyllgor Gweithredol, er mwyn sicrhau y caiff pob risg ei rheoli gan ddefnyddio dull cyson.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nodais bedwar maes risg cyffredinol yr wyf yn eu rheoli:

**a** colli incwm o bosibl drwy brosesau ad-drefnu sefydliadol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

**b** risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau sefydliadol yn Swyddfa Archwilio Cymru;

**c** risgiau gweithredol ac ariannol;

**ch** risgiau cyfreithiol.

## Adolygiad o waith cyflenwyr archwiliadau

Byddaf yn pennu'r safonau ar gyfer yr archwilwyr a gyflogir neu a benodir gennyf, gan gynnwys staff Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn monitro eu perfformiad. Yn ganolog i'm gweithdrefnau rheoli ansawdd archwiliadau mae'r gofyniad i archwilwyr gydymffurfio â safonau proffesiynol a moesegol a defnyddio staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol, sy'n cael cyfarwyddyd effeithiol gan reolwyr ac a gaiff eu hadolygu'n effeithiol ar bob cam o'r broses archwilio.

Rwyf yn sicrhau bod safonau yn cael eu monitro ac yn gwerthuso ansawdd gwaith cyflenwyr archwiliadau (o fewn Swyddfa Archwilio Cymru a chan gwmnïau preifat) drwy adolygiad blynyddol sy'n seiliedig ar risgiau. Mae'r adolygiad yn pennu p'un a yw archwilwyr yn cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, a oedd mewn grym ar gyfer y flwyddyn a adolygir (sef y Cod Ymarfer Archwilio o fis Ebrill 2010 ymlaen), yn bodloni gofynion penodol eraill, ac yn hyrwyddo gwelliannau fel bod pobl Cymru yn cael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Cyflwynir adroddiadau ar ganlyniadau'r adolygiad i gyflenwyr archwiliadau. Ystyriaf ansawdd wrth rwymo i gontract â chwmnïau preifat ac wrth benodi i swyddi archwilio.

## Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'm huwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith rheolaeth fewnol a'i gynnal, a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg wedi ystyried canlyniad yr adolygiad a'm cynllun i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau.

Mae'r broses a gynhaliwyd gennyf i sicrhau rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rheoli risg a ffynonellau eraill o sicrwydd, gan gynnwys Archwiliad Mewnol. Mae modd i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gysylltu â mi a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn rheolaidd ac yn ddilyffethair, ac mae'n bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Fel y dangosodd y digwyddiadau diweddar yn ymwneud â chyn-Archwilydd Cyffredinol, roedd y rheolaethau mewnol sy'n gysylltiedig â rôl yr adran Archwilio Mewnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, yn hynod o effeithiol ac yn ddigon cadarn i allu dwyn y mater yn gyflym i sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w ddatrys yn briodol drwy'r sianeli priodol.

Mae un o'r Partneriaid (sy'n mynd i gyfarfodydd fy Mhwyllgor Gweithredol fel cynghorydd) yn gyfrifol am reoli risg ac am gadw'r gofrestr risgiau corfforaethol. Adolygir y gofrestr hon yn rheolaidd a chaiff ei diweddaru fel y bo'n briodol. Caiff materion yn ymwneud â risgiau eu hasesu gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ogystal ag yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol. Sefydlwyd cofrestrau risg sector neu swyddogaeth hefyd sy'n ategu'r gofrestr gorfforaethol ac y mae Partneriaid Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaethau yn gyfrifol amdanynt ac yn eu diweddaru.

Fel cydnabyddiaeth o'r problemau cyffredinol o ran diogelwch gwybodaeth a wynebwyd gan bob rhan o'r sector cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi ceisio diogelu data a ddelir yn electronig gan Swyddfa Archwilio Cymru ymhellach. Gwnaed hyn drwy:

- atgoffa pob aelod o staff am ei gyfrifoldebau o ran y broses sylfaenol o ddiogelu asedau yn unol â pholisïau corfforaethol, p'un a ydynt yn asedau ffisegol fel gliniaduron neu'n asedau gwybodaeth fel data a gedwir ar gyfrifiaduron neu ar gyfryngau electronig cludadwy;
- sicrhau bod pob gliniadur wedi ei uwchraddio fel y caiff pob gyriant caled ei amgryptio i atal mynediad heb awdurdod pe caiff ei ddwyn;
- sicrhau bod pob cofbin wedi'i uwchraddio fel mai dim ond dyfeisiau wedi'u hamgryptio sydd ar gael y mae fy staff wedi eu hawdurdodi i'w defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod i wybodaeth pe caiff y cofbin ei ddwyn;
- atgoffa staff i beidio â gofyn am ddata personol oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol a dileu unrhyw wybodaeth bersonol ar ddiwedd yr archwiliad oni bai bod angen ei chadw'n benodol fel tystiolaeth archwilio.

Ymhellach, gofynnodd y cyn-Archwilydd Cyffredinol i PricewaterhouseCoopers gynnal adolygiad o drefniadau rheoli gwybodaeth corfforaethol yn Swyddfa Archwilio Cymru. Canfu'r adolygiad hwn er bod yr holl reolaethau a gweithdrefnau angenrheidiol ar waith, bod problemau diwylliannol gyda staff y mae angen mynd i'r afael â hwy. O gofio bod achosion proffil uchel wedi dod i'r amlwg yn allanol ac yn fewnol yn y sefydliad, cymerwyd camau i dynhau a gorfodi polisïau ymhellach. Mae'r camau hyn yn cael yr effaith briodol o newid agweddau diwylliannol at reoli gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth yn y sefydliad.

## Problemau mawr o ran rheolaeth fewnol

Nid wyf wedi dod ar draws unrhyw broblemau mawr o ran rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

........................................................................

**Gillian Body**
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad: 18 Mehefin 2010

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD KTS OWENS THOMAS CYFYNGEDIG I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Tystiwn ein bod wedi archwilio Datganiadau Ariannol Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ar dudalennau 28 i 55 o dan baragraff 15 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Paratowyd y Datganiadau Ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Ddeddf honno. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Daliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a KTS Owens Thomas Cyfyngedig

Fel y disgrifir ar dudalen 20, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Daliadau a'r Datganiadau Ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r Datganiadau Ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar daliadau sydd i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Rhown ein barn ynghylch a yw'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun teg a chywir a ph'un a yw'r Datganiadau Ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys o dan y ddeddf honno. Rhown ein barn hefyd ynghylch p'un a yw'r gwariant a'r incwm, ymhob ffordd berthnasol, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a ph'un a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nodwn hefyd os nad yw Sylwadaeth y Rheolwyr, yn ein barn ni, yn gyson â'r Datganiadau Ariannol, os nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth yn ymwneud â thaliadau a thrafodion eraill a nodir gan Drysorlys EM.

Darllenwn y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyriwn p'un a yw'n gyson â'r Datganiadau Ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau nad yw wedi'i harchwilio. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n tystysgrif os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r Datganiadau Ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Rydym yn adolygu p'un a yw'r datganiad ar dudalennau 21 i 25 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru â chanllawiau'r Trysorlys, "Llywodraethu Corfforaethol: Datganiad am Reolaeth Fewnol". Nodwn os nad yw'n bodloni'r gofynion ar gyfer datgelu a nodir gan y Trysorlys neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rydym yn ymwybodol ohoni o'n harchwiliad o'r Datganiadau Ariannol. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried, ac nid ydym wedi ystyried p'un a yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau. Nid yw'n ofynnol i ni ychwaith lunio barn o ran effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheolaeth.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y Datganiadau Ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac a ydynt wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Gwnaethom gynllunio a chynnal ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn ein barn ni, er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i ni allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad perthnasol yn y Datganiadau Ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau i'w harchwilio, boed hynny drwy wall, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio ein barn rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynwyd yn y Datganiadau Ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau i'w harchwilio.

## Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys o dan y Ddeddf honno, o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2010 a'r gwarged, y newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r Datganiadau Ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau i'w harchwilio wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys o dan y Ddeddf honno;
- defnyddiwyd yr incwm a'r gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob ffordd berthnasol, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli;
- mae'r wybodaeth yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau nad yw wedi'i harchwilio a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r Datganiadau Ariannol.

## Barn ar wahân mewn perthynas â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Fel yr eglurir yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cydymffurfio â fersiwn 2009-10 o Lawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys EM.

Yn ein barn ni, mae'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â fersiwn 2009-10 o FReM Trysorlys EM, o sefyllfa Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2010 a'r gwarged, y newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny.

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y Datganiadau Ariannol hyn.

..........................................................................

| | |
|---|---|
| **KTS OWENS THOMAS CYFYNGEDIG** | The Counting House |
| Archwilwyr Cofrestredig | Celtic Gateway |
| | Caerdydd |
| Dyddiad: 18 Mehefin 2010 | CF11 0SN |

# Datganiadau Ariannol a nodiadau

## Datganiad o incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredu** | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | | 16,606 | 16,875 |
| Incwm arolygu | 3 | 3,599 | 3,017 |
| Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol | | 5,047 | 4,900 |
| Incwm gweithredu arall | 4 | 371 | 333 |
| | | **25,623** | **25,125** |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Staff a chostau cysylltiedig | 5 | 17,716 | 16,749 |
| Gwasanaethau allanol | 6 | 4,096 | 4,095 |
| Costau gweithredu eraill | 7 | 3,806 | 4,305 |
| Cost dybiannol | 1(xi) | 4 | 4 |
| | | **25,622** | **25,153** |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu gan gynnwys cost dybiannol cyn trethiant | | 1 | (28) |
| **Incwm ariannu** | | | |
| Ychwanegu costau tybiannol | 1(xi) | 4 | 4 |
| Llog net derbyniadwy | 8 | 5 | 43 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn cyn trethiant | | 10 | 19 |
| Treth gorfforaeth | 9 | (1) | (9) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl trethiant | | **9** | **10** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 32 i 55 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

Nodir newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn Nodyn 19.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 | 31 Mawrth 2008 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 11 | 1,268 | 1,134 | 1,589 |
| Asedau anniriaethol | 12 | 120 | 0 | 0 |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | **1,388** | **1,134** | **1,589** |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr ffioedd a gwaith sy'n mynd rhagddo | 13 | 2,027 | 2,356 | 3,013 |
| Dyledwyr eraill | 14 | 487 | 532 | 509 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 15 | 3,296 | 1,056 | 209 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | | **5,810** | **3,944** | **3,731** |
| Cyfanswm asedau | | **7,198** | **5,078** | **5,320** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Credydwyr a thaliadau a gronnwyd | 16 | 1,584 | 1,505 | 1,925 |
| Incwm gohiriedig | 17 | 4,702 | 3,368 | 3,071 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 18 | 715 | 0 | 0 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol | | **7,001** | **4,873** | **4,996** |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | **197** | **205** | **324** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 18 | 80 | 97 | 226 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | | **80** | **97** | **226** |
| Asedau llai rhwymedigaethau | | **117** | **108** | **98** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Cronfeydd refeniw wrth gefn | 19 | 117 | 108 | 98 |
| Cyfanswm cronfeydd wrth gefn | | **117** | **108** | **98** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 32 i 55 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

..........................................................................

**Gillian Body**
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad: 18 Mehefin 2010

# Datganiad llif arian parod ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 20 | 2,692 | 862 |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a gafwyd | | 5 | 43 |
| Mewnlif arian parod net o elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid | | **5** | **43** |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, offer a chyfarpar | | (337) | (58) |
| Taliadau i gaffael asedau anniriaethol | | (120) | 0 |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | **(457)** | **(58)** |
| Cynnydd mewn arian parod | 22 | **2,240** | **847** |
| Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | | **1,056** | **209** |
| Arian ac adnoddau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | **3,296** | **1,056** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 32 i 55 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | £000 |
|---|---|
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2008 | **98** |
| Effaith y newidiadau o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol | 0 |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2008 | **98** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2008-9** | |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl trethiant | 10 |
| Y fantolen ar 31 Mawrth 2009 | **108** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2009-10** | |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl trethiant | 9 |
| Y fantolen derfynol ar 31 Mawrth 2010 | **117** |

Mae'r nodiadau canlynol ar dudalennau 32 i 55 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol hyn.

## Mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac am na chafwyd unrhyw effaith ar y cyfrifon, nid oes angen ailddatgan mantolenni na Datganiadau Ariannol na datgan cysoniadau mewn perthynas â newidiadau.

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## Nodyn 1: Confensiynau a pholisïau cyfrifyddu

### Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y Datganiadau Ariannol yn unol â Safonau Cyflwyno Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2009-10 (FReM), a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa. Disgrifir y polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

**(i)** Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried y broses o ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol lle y bônt yn berthnasol i'w gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol, ar ffurf a gyfarwyddir gan Drysorlys EM, o dan baragraff 13(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**(ii)** Mae safonau penodol a diwygiadau i safonau presennol wedi'u cyhoeddi ac maent yn orfodol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010 neu gyfnodau hwyrach, ond ni chawsant eu mabwysiadu'n gynnar. Ni ddisgwylir i unrhyw rai o'r safonau hyn gael effaith berthnasol ar y Datganiadau Ariannol.

**(iii)** Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion Deddf Cwmnïau 2006, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, a'r safonau cyfrifyddu cymwys i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn briodol.

**(iv)** Priodolwyd y costau yr aethpwyd iddynt ar archwiliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad (fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) a chyrff cysylltiedig, llywodraeth leol a chyrff y GIG, lle y bo'n bosibl, yn uniongyrchol i'r gweithgarwch perthnasol; lle na lwyddwyd i wneud hyn, priodolwyd gwariant cyffredin i bob gweithgarwch yn ôl sawl awr a weithiwyd neu sail briodol arall.

**(v)** Mae PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir y mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn cyfrannu ato. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol yn ystod y cyfnod y bydd yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy wneud taliadau i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a gyfrifir ar sail gronnol. Codir rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff trefniadau pensiwn eu hegluro'n fanylach yn yr Adroddiad ar Daliadau.

**(vi)** Caiff rhenti prydlesi gweithredol eu codi ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel rhan hanfodol o'r cyfanswm costau prydles.

**(vii)** Cydnabyddir incwm ffioedd crynswth ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW.

**(viii)** Caiff incwm gweithredu, p'un a gynhyrchir drwy grant uniongyrchol y llywodraeth, arian a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ffioedd gan awdurdodau neu fel arall, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu fel incwm gohiriedig.

**(ix)** Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe'i cyfrifir i dalu am gost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau | 10 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | 3 mlynedd |
| Meddalwedd gyfrifiadurol | 5 mlynedd |
| Offer Swyddfa | 5 mlynedd |

O dan bolisi cyfalafu'r Archwilydd Cyffredinol, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol a meddalwedd gwerth dros £5,000; offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfeydd. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

**(x)** Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan fel cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased, pa un bynnag sydd fyrraf. Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

**(xi)** Cyfrifir cost dybiannol cyfalaf ar sail asedau net ar wahân i'r balansau a ddelir â Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol ar 3.5 y cant (2008-09; 3.5 y cant) ac fe'i codir ar gostau gweithredu. Caiff y gost hon ei hychwanegu at y gwarged/(diffyg) gweithredu a'i phriodoli i wariant llywodraeth ganolog ddatganoledig, llywodraeth leol a'r GIG ar sail cronfeydd wrth gefn ym mhob gweithgarwch.

**(xii)** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu ar gyfer costau dadfeilio o dan ei brydlesi eiddo, a ddisgowntiwyd i'r gwerth presennol.

**(xiii)** Polisi'r Archwilydd Cyffredinol yw nad ymgymerir ag unrhyw fasnachu mewn offerynnau ariannol, ac y caiff pob adnau ei wneud mewn punnoedd Sterling, a dyna fu ei bolisi drwy gydol y cyfnod a adolygwyd. Gweler Nodyn 25 am ragor o fanylion. Gwneir adneuon yn y cyfrifon canlynol:

**(a)** Cyfrif llog dros nos

**(b)** Cronfa Sterling Fyd-eang

Cedwir y ddau gyfrif gyda Grŵp RBS. Mae'r Gronfa Sterling Fyd-eang yn gronfa a reolir sy'n ei gwneud yn bosibl adneuo neu godi arian ar unwaith. Ei nod yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra'n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae'r gronfa wedi'i strwythuro i sicrhau y cynhelir y graddau uchaf, sef graddau AAA neu raddau cyfwerth, gydag asiantaethau graddio Standard & Poor's, Fitch a Moody.

**(xiv)** Caiff dyledwyr a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at yr hyn a geir drwy gontractau gwasanaeth am waith a gwblhawyd pan nad yw'r ffi wedi'i derbyn eto neu pan fo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif.

**(xv)** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu ar bob dyled, a dim ond lle ceir amheuaeth y gellir adennill y ddyled honno y bydd yn darparu ar ei chyfer. Caiff unrhyw ddyled a ddilëir a gaiff ei chasglu ar ôl hynny ei chlirio yn erbyn y ddarpariaeth ychwanegol a wnaed yn y cyfnod.

**(xvi)** Yn gyffredinol, nid yw gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol yn rhai masnachol ac felly ni chânt eu trethu. Fodd bynnag, cafodd canllawiau Cyllid a Thollau EM eu diwygio gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2009 fel bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gorfod talu treth gorfforaeth ar unrhyw elw sy'n deillio o incwm masnachu, incwm buddsoddi ac unrhyw enillion cyfalaf sy'n codi.

**(xvii)** Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol, rhaid llunio amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y polisïau a gymhwysir a'r symiau a gofnodir. Caiff amcangyfrifon a dyfarniadau eu hadolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y diwygiwyd yr amcangyfrif ac ym mhob cyfnod y mae'r diwygiad yn effeithio arno yn y dyfodol.

Caiff gwybodaeth am amcangyfrifon sylweddol a dyfarniadau pwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu sy'n cael yr effaith fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y Datganiadau Ariannol, eu cynnwys yn y nodiadau canlynol i'r Datganiadau Ariannol:

Nodyn 18: Amcangyfrifir darpariaethau ar gyfer dileu swyddi a diswyddiadau yn unol ag egwyddorion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gyntaf ar y cyd ag adnoddau eraill fel y bo'n briodol.

Nodyn 13: Gwaith yn mynd rhagddo. Fel y nodir yn (xiv) caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ei brisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae'r dull hwn yn defnyddio canran gwblhau i gyfrifyddu ar gyfer lefel y gwaith sy'n mynd rhagddo a gydnabyddir ar bob aseiniad ffi y cytunwyd arno, hynny yw, amcangyfrif o'r gwasanaethau a ddarparwyd hyd yn hyn fel cyfran o'r cyfanswm gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

Nodyn 13: Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion a dyledion amheus ar y sail ganlynol:

| | |
|---|---|
| Dyledion rhwng 6 a 12 mis | 50% |
| Dyledion sy'n hŷn na 12 mis | 100% |

Caiff hyn ei adolygu ar sail dyledion penodol.

Nodiadau 11 a 12: Caiff asedau anghyfredol eu hadolygu'n flynyddol i weld a ydynt wedi dirywio mewn unrhyw ffordd.

# Nodyn 2: Dadansoddiad o incwm a gwariant

**i)** Dadansoddiad yn ôl sector:

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llywodraeth ganolog** | | | |
| Incwm o ffioedd (gweler ii) | Incwm o ffioedd | 1,139 | 1,178 |
| | Incwm grant | 376 | 393 |
| | Incwm arall | 5,259 | 5,044 |
| | | **6,774** | **6,615** |
| Gwariant | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol | 6,785 | 6,601 |
| Canlyniadau net | | **(11)** | **14** |
| **Llywodraeth leol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau tân ac achub a thai** | | | |
| Incwm o ffioedd (gweler ii) | Incwm o ffioedd | 10,831 | 9,104 |
| | Incwm grant | 1,730 | 4,723 |
| | Incwm arall | 412 | 374 |
| | | **12,973** | **14,201** |
| Gwariant | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol | 12,964 | 14,191 |
| Canlyniadau net | | **9** | **10** |
| **Iechyd** | | | |
| Incwm (gweler ii) | Incwm o ffioedd | 5,747 | 4,219 |
| | Incwm arall | 134 | 133 |
| | | **5,881** | **4,352** |
| Gwariant | Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol | 5,870 | 4,366 |
| Canlyniadau net | | **11** | **(14)** |

**ii)** Analysis of income: work undertaken by the Auditor General directly, and work outsourced:

## Llywodraeth ganolog

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol | | | |
| | Ffioedd | 1,139 | 1,178 |
| | Grantiau | 376 | 393 |
| Incwm arall | | 5,259 | 5,044 |
| | | **6,774** | **6,615** |

## Llywodraeth leol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau tân ac achub a thai

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyflawnwyd gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol | | | |
| | Ffioedd | 7,622 | 7,760 |
| | Grantiau | 1,464 | 2,058 |
| Archwiliadau a gynhaliwyd gan gwmnïau cyfrifyddu preifat | | 3,475 | 4,009 |
| Incwm arall | | 412 | 374 |
| | | **12,973** | **14,201** |

## Iechyd

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|---|
| Cyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol | | | |
| | Ffioedd | 5,747 | 4,219 |
| Incwm arall | | 134 | 133 |
| | | **5,881** | **4,352** |

Mae'r adrannau hyn yn adlewyrchu'r gwaith y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol godi ffi amdano a fydd yn talu am gost lawn darparu'r gwasanaeth.

Cofnodir asedau net pob sector yn Nodyn 19.

## Nodyn 3: Incwm Arolygu a'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am arolygu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â gofynion y Ddeddf. Fodd bynnag, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a gyflwynwyd ar 10 Mehefin 2009, wedi disodli'r gwaith hwn i bob pwrpas.

Mae grantiau ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer gwaith arolygu mewn awdurdodau lleol, ac yn ystod y cyfnod hwn, dyfarnodd Llywodraeth y Cynulliad nifer o grantiau. O hyn ymlaen, bydd grantiau o'r fath yn cael eu trosglwyddo i waith a wneir ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Incwm o ffioedd | | 1,931 | 1,566 |
| Incwm grant | Llywodraeth y Cynulliad | 1,668 | 1,451 |
| | | **3,599** | **3,017** |

## Nodyn 4: Incwm gweithredu arall

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Costau cyfreithiol a ad-dalwyd | 0 | 4 |
| Cyhoeddiadau a chynadleddau | 17 | 13 |
| Secondiadau | 344 | 310 |
| Incwm amrywiol | 10 | 6 |
| | **371** | **333** |

## Nodyn 5: Staff a chostau cysylltiedig

**(i)** Costau staff

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Cyflogau staff | 11,370 | 11,379 |
| Cyflogau Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg | 27 | 17 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,033 | 1,011 |
| Costau pensiwn | 2,864 | 2,636 |
| | **15,294** | **15,043** |
| Cynllun ceir | 777 | 677 |
| Tanysgrifiadau a buddiannau eraill | 45 | 76 |
| | **16,116** | **15,796** |
| Contractwyr archwilio ac arolygu | 725 | 745 |
| | **16,841** | **16,541** |
| Dileu swyddi, ymddeoliad cynnar a chostau diswyddo | 875 | 208 |
| | **17,716** | **16,749** |
| Mae costau staff a secondiwyd i sefydliadau eraill wedi'u cynnwys yn y cyflogau | 344 | 310 |
| Costau staff a gyfalafwyd | 49 | 0 |

Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau a hawliau pensiwn uwch reolwyr yn yr Adroddiad ar Daliadau ar dudalennau 15 i 19.

**(ii)** Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| **Staff a gyflogwyd** | | |
| Gweithredol − archwilio ac arolygu | 166 | 184 |
| Adrannau canolog | 76 | 67 |
| | **242** | **251** |
| Mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn | **260** | **270** |
| Contractwyr asiantaeth a chyswllt parhaol, hyblyg (cyfartaledd yn ystod y flwyddyn) | **21** | **34** |
| Contractwyr asiantaeth a chyswllt parhaol, hyblyg (mewn swyddi ar ddiwedd y flwyddyn) | **28** | **29** |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyfalafwyd | **1.3** | **0** |

## Nodyn 6: Gwasanaethau allanol

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 3,880 | 3,942 |
| Costau ymchwil ac ymgynghori eraill | 216 | 153 |
| | **4,096** | **4,095** |

Mae'r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau a brynwyd i mewn gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â swyddogaethau archwilio, arolygu neu ymchwilio.

## Nodyn 7: Costau gweithredu eraill

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| Llety | costau prydlesi rhent | 455 | 605 |
| | costau eraill | 393 | 458 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | | 1,691 | 1,906 |
| Recriwtio a throsglwyddiadau | | 15 | 21 |
| Dibrisiant | | 203 | 391 |
| Ffi archwilio | | 13 | 10 |
| Ffioedd proffesiynol | | 158 | 134 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 528 | 572 |
| Hyfforddiant | | 206 | 159 |
| Dyledion a gafodd eu dileu | | 0 | 2 |
| Dyledion y darparwyd ar eu cyfer | | 144 | 47 |
| Rhyddhau darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion | | 0 | 0 |
| | | **3,806** | **4,305** |

## Nodyn 8: Llog net derbyniadwy

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Llog derbyniadwy | 5 | 43 |
| | **5** | **43** |

## Note 9: Taxation

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Treth gorfforaeth ar 21% | 1 | 9 |
| | **1** | **9** |

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gorfod talu treth gorfforaeth ar incwm masnachu, incwm buddsoddi ac unrhyw enillion cyfalaf sy'n codi. Mae darpariaeth wedi'i gwneud yn y cyfrifon ar gyfer talu treth gorfforaeth ar y ffynonellau incwm hyn.

## Nodyn 10: Cysoni cais net am adnoddau â gofyniad arian parod net

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm yr incwm | 26,697 | 25,628 | 1,069 | 25,600 | 25,168 | 432 |
| Llai adnoddau wedi'u heithrio (Nodyn i) | (11,900) | (11,243) | (657) | (11,400) | (12,212) | 812 |
| | **14,797** | **14,385** | **412** | **14,200** | **12,956** | **1,244** |
| Llai adnoddau cymeradwy wedi'u cronni (Nodyn ii) | (9,750) | (9,338) | (412) | (9,300) | (8,056) | (1,244) |
| Cais net am adnoddau | **5,047** | **5,047** | **0** | **4,900** | **4,900** | **0** |
| Defnydd o ddarpariaethau, newidiadau mewn dyledwyr a chredydwyr ac addasiadau eraill (Nodyn iii) | 173 | 176 | (3) | 200 | 391 | (191) |
| Llai eitemau cyfalaf | (200) | (203) | 3 | (200) | (391) | 191 |
| Gofyniad arian parod net[1] | **5,020** | **5,020** | **0** | **4,900** | **4,900** | **0** |

1 Yn sgîl llifoedd arian parod gweithredol cyffredin, gall cyfanswm balansau arian parod a ddelir gan y sefydliad, Nodyn 21, gynyddu neu leihau'n annibynnol ar y balansau arian parod hynny a briodolir yn benodol i'r gofyniad arian parod net ar gyfer gweithgareddau heb eu heithrio fel y'u diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Nodiadau

Nodyn (i) O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff incwm sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â llywodraeth leol ei eithrio at ddibenion cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ffioedd archwilio | 10,050 | 9,371 | 679 | 9,600 | 10,463 | (863) |
| Grant gan Lywodraeth y Cynulliad | 1,400 | 1,668 | (268) | 1,500 | 1,451 | 49 |
| Arall | 450 | 204 | 246 | 300 | 298 | 2 |
| | **11,900** | **11,243** | **657** | **11,400** | **12,212** | **(812)** |

Nodyn (ii) O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae incwm sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â llywodraeth ganolog ac iechyd yn destun cymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ffioedd archwilio | 7,200 | 7,062 | 138 | 6,900 | 5,495 | 1,405 |
| Ffioedd ardystio grantiau | 2,400 | 2,106 | 294 | 2,300 | 2,452 | (152) |
| Arall | 150 | 170 | (20) | 100 | 109 | (9) |
| | **9,750** | **9,338** | **412** | **9,300** | **8,056** | **1,244** |

## Nodyn (iii) Defnydd o ddarpariaethau, newidiadau mewn dyledwyr a chredydwyr ac addasiadau eraill.

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif** | **Alldro** | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben)** | **Amcangyfrif** | **Alldro** | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/ (dros ben)** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Gostyngiad mewn dyledwyr, net o gynyddu/(rhyddhau) darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion a dyledion amheus | 73 | 230 | (157) | 100 | 587 | (487) |
| Cynyddu/(rhyddhau) darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion a dyledion amheus | 0 | 144 | (144) | 0 | 47 | (47) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr ac incwm gohiriedig | 100 | 1,413 | (1,313) | 100 | (123) | 223 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau[1] | 0 | (17) | 17 | 0 | (129) | 129 |
| Llai eitemau heb eu cymeradwyo[2] | 0 | (1,525) | 1,525 | 0 | (847) | 847 |
| Amrywiol | 0 | (69) | 69 | 0 | 856 | (856) |
| | **173** | **176** | **(3)** | **200** | **391** | **(191)** |

1 Nid yw hyn yn cynnwys addasiadau i ddarpariaethau tybiannol.

2 Mae dosbarthiad eitemau sydd heb eu cymeradwyo yn cydnabod swm y newid ar y fantolen mewn perthynas ag arian parod wedi'i eithrio a dderbyniwyd a darpariaethau amrywiol a wnaed.

3 Mae newidiadau amrywiol yn cynnwys nifer o falansau unigol sydd wedi'u cyfannu i ddangos dosbarthiad eitemau heb eu cymeradwyo.

## Esboniad o amrywiant rhwng yr amcangyfrif a'r alldro

Mae cyfanswm yr incwm a gydnabuwyd yn llai na'r disgwyl oherwydd natur ac amseriad y gwaith a wnaed. Er i fwy o waith y gellid codi tâl amdano gael ei wneud ar y sector iechyd (sy'n rhan o'r adnoddau cymeradwy wedi'u cronni, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), gwrthbwyswyd hyn yn llwyr gan y lefel is na'r disgwyl o incwm a gydnabuwyd yn y sector llywodraeth leol, sydd fel arfer yn rhan o'r gofyniad adnoddau wedi'u heithrio o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cafwyd cynnydd yn swm yr incwm gohiriedig oherwydd canolbwyntiwyd ar weithio ar y sector iechyd yn sgîl yr ad-drefnu a fu yn y sector yn ystod y flwyddyn. Effaith hyn oedd y bu'n rhaid gohirio rhywfaint o waith archwilio ar gyfer cleientiaid eraill.

## Nodyn 11: Eiddo, offer a chyfarpar

| | | Dodrefn a ffitiadau | Offer a meddalwedd cyfrifiadurol | Offer swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cost** | | | | | |
| | Ar 31 Mawrth 2009 | 843 | 653 | 27 | 1,523 |
| | Pryniannau | 76 | 252 | 9 | 337 |
| | Gwarediadau | (1) | (21) | 0 | (22) |
| | Ar 31 Mawrth 2010 | **918** | **884** | **36** | **1,838** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| | Ar 31 Mawrth 2009 | 127 | 244 | 18 | 389 |
| | Darparwyd yn ystod y cyfnod | 88 | 108 | 6 | 202 |
| | Gwarediadau | (1) | (20) | 0 | (21) |
| | Ar 31 Mawrth 2010 | **214** | **332** | **24** | **570** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| | Ar 31 Mawrth 2010 | **704** | **552** | **12** | **1,268** |
| | Ar 31 Mawrth 2009 | **716** | **409** | **9** | **1,134** |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Mae'r holl asedau o dan berchenogaeth ac nid oes unrhyw ased yn ddarostyngedig i gytundebau prydles.

## Nodyn 12: Asedau anniriaethol

Trwyddedau meddalwedd yw asedau anniriaethol.

| | | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | | **£000** |
| **Cost** | | |
| | Ar 31 Mawrth 2009 | 0 |
| | Pryniannau | 120 |
| | Ar 31 Mawrth 2010 | **120** |
| **Amorteiddio** | | |
| | Ar 31 Mawrth 2009 | 0 |
| | Darparwyd yn ystod y cyfnod | 0 |
| | Ar 31 Mawrth 2010 | **0** |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| | Ar 31 Mawrth 2010 | **120** |
| | Ar 31 Mawrth 2009 | **0** |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

## Nodyn 13: Dyledwyr ffioedd a gwaith sy'n mynd rhagddo

| | | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Dyledwyr ffioedd** | | | |
| | Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 173 | 134 |
| | Llywodraeth leol | 542 | 825 |
| | Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 715 | 221 |
| **Gwaith yn mynd rhagddo** | | | |
| | Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 420 | 486 |
| | Llywodraeth leol | 151 | 346 |
| | Gwasanaeth Iechyd Gwladol | 26 | 344 |
| | | **2,027** | **2,356** |

## Darpariaeth gyffredinol ar gyfer drwg-ddyledion a dyledion amheus (wedi'i chlirio yn erbyn y dosbarth priodol o ddyledwr):

| | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Darpariaeth agoriadol | 136 | 89 |
| Darpariaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn | 144 | 47 |
| Darpariaeth derfynol | **280** | **136** |

# Nodyn 14: Dyledwyr eraill

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | 321 | 376 |
| Rhagdaliadau | 159 | 137 |
| Benthyciadau i gyflogeion | 7 | 19 |
| | **487** | **532** |

## Mae dyledion sy'n daladwy ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod:

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Wedi'u cynnwys yn dyledwyr eraill: | | |
| cynllun adleoli tai: blaensymiau i staff | **5** | **14** |

## Gellir dadansoddi balansau'r dyledwyr yn Nodiadau 13 a 14 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2010 £000 | 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth ganolog | 639 | 651 |
| Cyrff llywodraeth leol | 736 | 1,171 |
| Cyrff y GIG | 755 | 565 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 384 | 501 |
| | **2,514** | **2,888** |

## Nodyn 15: Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 31 Mawrth 2010<br>£000 | 31 Mawrth 2009<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfrif cyfredol | 2,344 | 759 |
| Cyfrif Ewro | 1 | 0 |
| Y Gronfa Sterling Fyd-eang | 951 | 297 |
| | **3,296** | **1,056** |

Mae'r Cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos. Sefydlwyd cyfrif Ewro yn ystod y flwyddyn i symleiddio trafodion tramor.

Mae'r Gronfa Sterling Fyd-eang yn rhan o Grŵp RBS. Nod y gronfa hon yw diogelu balansau cyfalaf hyd yn oed pan fo ansefydlogrwydd ariannol o fewn y marchnadoedd ariannol, tra'n cynnig adenillion marchnad arian cyfanwerthol. Mae'r gronfa wedi'i strwythuro i sicrhau y cynhelir y graddau uchaf, sef graddau AAA neu raddau cyfwerth, gydag asiantaethau graddio Standard & Poor's, Fitch a Moody.

## Nodyn 16: Credydwyr a thaliadau a gronnwyd

| | 31 Mawrth 2010<br>£000 | 31 Mawrth 2009<br>£000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 175 | 168 |
| TAW | 226 | 368 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 558 | 420 |
| Croniadau | 625 | 549 |
| | **1,584** | **1,505** |

Mae'r croniadau ar gyfer cyflog gwyliau yn cynrychioli'r rhwymedigaeth ar gyfer hawl gwyliau a gaiff ei chario ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn.

## Nodyn 17: Incwm gohiriedig

| | 31 Mawrth 2010<br>£000 | 31 Mawrth 2009<br>£000 |
|---|---|---|
| Incwm gohiriedig | 4,702 | 3,368 |
| | **4,702** | **3,368** |

Mae'r incwm gohiriedig yn cynrychioli'r arian a gafwyd ymlaen llaw ar gyfer gwaith archwilio ac arolygu.

Gellir dadansoddi balansau'r credydwyr yn Nodiadau 16 a 17 o dan y categorïau canlynol:

| | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 66 | 74 |
| Cyrff llywodraeth leol | 2,711 | 2,197 |
| Cyrff y GIG | 1,931 | 1,208 |
| Corfforaethau cyhoeddus | 0 | 17 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 1,578 | 1,377 |
| | **6,286** | **4,873** |

## Nodyn 18: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys i gostau swyddfeydd yn y dyfodol sy'n cynnwys dadfeiliadau a allai fod yn daladwy ar ddiwedd y prydlesi, a diswyddiadau.

| | | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Darpariaethau anghyfredol** | | | |
| Balans agoriadol | | 97 | 226 |
| Darpariaeth yn ystod y flwyddyn | dileu swyddi a diswyddiadau | 715 | 0 |
| | dadfeiliadau | 48 | 40 |
| Rhyddhawyd a defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â dadfeiliadau | | (65) | (169) |
| Balans terfynol | | **795** | **97** |
| **Dadansoddir y ddarpariaeth fel a ganlyn** | | | |
| Rhwymedigaeth gyfredol | dileu swyddi a diswyddiadau | 715 | 0 |
| Rhwymedigaeth anghyfredol | dadfeiliadau | 80 | 97 |
| | | **795** | **97** |

Caiff y darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau eu rhyddhau a'u defnyddio, fel y bo'n briodol, pan ddaw'r prydlesi i ben.

## Nodyn 19: Cronfeydd wrth gefn

### Cronfeydd refeniw wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn adlewyrchu arian a roddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol ariannu cyfalaf gweithio.

| | | 31 Mawrth 2010<br>£000 | 31 Mawrth 2009<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd refeniw wrth gefn** | **Llywodraeth ganolog** | | |
| | Dygwyd ymlaen | 19 | 5 |
| | (Diffyg)/gwarged ar gyfer y flwyddyn | (11) | 14 |
| | Cronfeydd wrth gefn llywodraeth ganolog | **8** | **19** |
| | **Llywodraeth leol** | | |
| | Dygwyd ymlaen | 55 | 45 |
| | Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 9 | 10 |
| | Cronfeydd wrth gefn llywodraeth leol | **64** | **55** |
| | **Iechyd** | | |
| | Dygwyd ymlaen | 34 | 48 |
| | Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn | 11 | (14) |
| | Cronfeydd wrth gefn ym maes iechyd | **45** | **34** |
| Cyfanswm cronfeydd wrth gefn | | **117** | **108** |

## Nodyn 20: Cysoni'r gwarged (diffyg) gweithredu ar gyfer y flwyddyn â mewnlif net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010<br>£000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009<br>£000 |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | 1 | (28) |
| Treth gorfforaeth | (1) | (9) |
| Cost dybiannol | 4 | 4 |
| Dibrisiant | 202 | 391 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | 1 | 122 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr a gwaith sy'n mynd rhagddo | 384 | 634 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau | 2,101 | (252) |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **2,692** | **862** |

## Nodyn 21: Cysoni mewnlif arian parod net â newid mewn cronfeydd net

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 £000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2009 £000 |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod | 2,240 | 847 |
| Newid mewn cronfeydd net | 2,240 | 847 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2009 | 1,056 | 209 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2010 | **3,296** | **1,056** |

## Nodyn 22: Dadansoddiad o'r newidiadau i gronfeydd net

| | Ar 1 Ebrill 2009 £000 | Llifoedd arian parod £000 | Ar 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau byrdymor ac arian parod yn y banc ac mewn llaw | 1,056 | 2,240 | **3,296** |

# Nodyn 23: Ymrwymiadau ariannol

## Ceir ymrwymiadau refeniw ar 31 Mawrth 2010 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo sy'n dod i ben:

| | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | 10 | 423 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 582 | 60 |
| | **592** | **483** |

## Roedd ymrwymiadau blynyddol ar 31 Mawrth 2010 i dalu rhenti o dan gytundebau prydles sy'n dod i ben:

| | 2010 | 2010 | 2009 | 2009 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | Nifer yr eiddo | £000 | Nifer yr eiddo |
| O fewn blwyddyn | 0 | 0 | 62 | 2 |
| O fewn blwyddyn i bum mlynedd | 135 | 2 | 60 | 1 |
| Dros bum mlynedd | 4,825 | 2 | 5,314 | 2 |
| | **4,960** | **4** | **5,436** | **5** |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd.

## Nodyn 24: Colledion a thaliadau arbennig

Nid oes unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn 2009-10, ac eithrio'r golled ar asedau sefydlog yn Nodyn 11, y mae angen eu datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyflwyno Adroddiadau Ariannol.

## Nodyn 25: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 32 Offerynnau Ariannol: Datgelu a Chyflwyno ac IAS 39 Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau'r Archwilydd Cyffredinol a'r modd y caiff ei weithrediadau eu hariannu, ni chaiff ei amlygu i'r un graddau o risg ariannol y mae endidau busnes yn eu hwynebu. At hynny, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan lawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risgiau nag a fyddai'n nodweddiadol o gwmnïau rhestredig y mae IAS 32 ac IAS 39 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol fenthyca arian ni fu'n rhaid iddo wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fuddsoddi cronfeydd gwarged ond mae'r cronfeydd hyn mewn cyfrif sy'n dwyn llog dros nos ac mewn Cronfa Sterling Fyd-eang ac nid yw'n newid y risgiau a wyneba wrth ymgymryd â'i weithgareddau arferol.

Fel y caniateir gan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau, mae Dyledwyr a Chredydwyr sy'n aeddfedu neu'n dod yn daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y fantolen wedi'u hepgor o'r proffil arian cyfred.

### Risg hylifedd

Ariennir gofynion refeniw a chyfalaf net yr Archwilydd Cyffredinol o ran adnoddau gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol felly.

### Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac eithrio incwm buddsoddi, yn agored i risg cyfradd llog.

### Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y datganiad o incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r gwarged gweithredu.

### Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2010 (31 Mawrth 2009; dim).

## Nodyn 26: Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael dyfarniad cychwynnol gan Gyllid a Thollau EM bod ei statws TAW yn parhau o drefniadau etifeddiaeth blaenorol o dan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru. Golyga hyn nad yw gwaith arolygu'r Archwilydd Cyffredinol yn weithgarwch busnes at ddibenion TAW. Mae hyn, yn ogystal â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, yn ymestyn y dyfarniad i gynnwys y gwaith hwn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wrthi'n trafod â Chyllid a Thollau EM i bennu'r driniaeth gywir ar gyfer y swyddogaeth hon ac mae'n parhau i godi ac adennill TAW ar y gweithgarwch hwn.

Efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn wynebu camau ymgyfreitha gan aelod o staff yn dilyn canlyniad ymchwiliad disgyblu. Hyd nes y caiff materion gweithdrefnol amrywiol eu datrys mewn perthynas â'r achos hwn, nid yw'n hysbys a gaiff camau ymgyfreitha o'r fath eu cymryd.

## Nodyn 27: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, aelodau o staff allweddol na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Unig gorfforaeth yw'r Archwilydd Cyffredinol a sefydlwyd o dan statud ac mae wedi cael nifer o drafodion perthnasol gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r datgeliad canlynol yn ymwneud â staff, neu eu partïon cysylltiedig, sydd mewn sefyllfa ddylanwadol yn sgîl cael eu hethol, cael tâl gan, neu gael eu penodi i unrhyw sefydliad, er enghraifft:

- lle bo'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi'r archwilydd neu'n arolygu'r corff;
- lle bo cyfrifoldebau statudol penodol i gydweithio e.e. Comisiwn Ansawdd Gofal;
- sy'n un o adrannau'r llywodraeth ganolog;
- sy'n darparu gwasanaethau sylweddol i'r Archwilydd Cyffredinol neu sy'n cael gwasanaethau sylweddol ganddo.

| **Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg** | **Swydd a ddaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010** |
|---|---|
| Peter Laing – Cadeirydd | Cadeirydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru<br>Ynad ar fainc Caerdydd<br>Aelod o'r Tribiwnlys Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol<br>Aelod o Dribiwnlys y Rheoleiddiwr Pensiynau<br>Aelod o Dribiwnlys Cyllid a Thollau EM |
| Yr Athro David Hands | Athro gwadd er anrhydedd yn Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg<br>Uwch gymrawd yn y Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor |
| Rosamund Blomfield-Smith | Cadeirydd Moat Homes Ltd<br>Cyfarwyddwr Thames Water Utilities Ltd a chwmnïau grŵp cysylltiedig<br>Cyfarwyddwr British Empire Securities Plc<br>Llywodraethwr Prifysgol Gorllewin Lloegr<br>Llywodraethwr Coleg Amaethyddol Hartpury |
| Dr Michael P Brooker | Aelod anweithredol o'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr<br>Aelod anweithredol o Gomisiwn Diwydiant Dŵr yr Alban<br>Aelod anweithredol Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol |
| Haydn Warman | Llywodraethwr Prifysgol Morgannwg |
| **Aelod o staff** | **Swydd a ddaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010** |
| Alison Butler | Ei gŵr yw Cyfarwyddwr Cyllid a Materion Corfforaethol yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd. |
| Margaret Griffiths | Mae ei gŵr yn rhedeg cwmni sy'n darparu gwasanaethau ymgynghori i amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. |
| Louise Fleet | Un o aelodau bwrdd Ryder Cup Wales 2010 Ltd a gafodd arian gan Lywodraeth y Cynulliad. Hi yw Cadeirydd Undeb Golff Cymru hefyd sy'n cael arian gan Chwaraeon Cymru. |
| Gill Lewis | Roedd ei gŵr yn Brif Weithredwr dros dro i Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd hyd at fis Ionawr 2010. Yna, daeth yn Gyfarwyddwr Perfformiad ac arloesi Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro. |

Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ